GIG CYMRU NHS WALES | Profi Olrhain Diogelu | Test Trace Protect

# Y profion y mae angen ichi eu cael cyn dod i gêm bêl-droed Cymru v Albania

Bydd angen ichi gael dau brawf COVID negatif er mwyn cael dod i'r gemau. Mae dau brawf yn y pecyn hwn:

1. Prawf COVID – o'r enw prawf adwaith cadwynol polymerasau (PCR) **a**
2. Prawf COVID cyflym – o'r enw prawf llif unffordd (LFT). Nid oes angen i blant dan 11 oed gael prawf.

**Os yw'r gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu wedi dweud wrthych am hunanynysu chewch chi DDIM dod i'r digwyddiad, hyd yn oed os oedd eich prawf yn negatif. Gan eich bod yn gyswllt agos i rywun, mae angen ichi hunanynysu.**

## Prawf 1

Cymerwch eich prawf PCR ar un o'r dyddiau canlynol:

31 Mai / 1 Mehefin / 2 Mehefin / 3 Mehefin neu 4 Mehefin

Mae'n bwysig iawn eich bod yn cofrestru'r prawf PCR gan ddilyn y cyfarwyddiadau. Os na wnewch chi hynny, fyddwch chi ddim yn cael canlyniad eich prawf.

Cymerwch sgrinlun o'r cadarnhad eich bod wedi llwyddo i gofrestru'ch prawf – efallai y bydd angen hwn arnoch yn nes ymlaen. Os nad ydych yn gallu gwneud hyn, dylai'r cadarnhad aros ar y sgrin os ceisiwch gofrestru eto.

Bydd angen ichi anfon eich prawf drwy ddefnyddio blwch post blaenoriaethol, a dylech dderbyn eich canlyniadau ymhen 48-72 awr.

Os bydd canlyniad eich prawf yn bositif, bydd angen ichi hunanynysu ar unwaith am 10 diwrnod ac ni fyddwch yn cael mynd i'r digwyddiad. Mae mwy o wybodaeth am hunanynysu yma: llyw.cymru/hunanynysu

Os bydd canlyniad eich prawf yn negatif, bydd angen ichi gadw'r e-bost neu'r neges destun fel prawf i gael mynd i mewn i'r digwyddiad. Os na fyddwch yn cael canlyniad eich prawf yn ôl cyn y digwyddiad, bydd angen ichi ddangos prawf eich bod wedi cofrestru'ch prawf PCR. Sgrinlun fydd hwn o'r cadarnhad eich bod wedi cofrestru eich prawf yn llwyddiannus.

## Prawf 2

Bydd angen ichi wneud eich prawf llif unffordd ddydd Gwener 4 Mehefin neu ddydd Sadwrn 5 Mehefin.

Dylech wneud y prawf hwn gartref a bydd yn rhoi'r canlyniadau ichi mewn tua 30 munud.

Dyma ragor o wybodaeth am sut i ddefnyddio'r prawf cyflym, gan gynnwys fideo sy'n dangos beth i'w wneud: llyw.cymru/profion-llif-unffordd-covid-19-ar-gyfer-pobl-heb-symptomau

Bydd angen ichi gofnodi canlyniad eich prawf, boed yn bositif neu'n negatif, ar y diwrnod y byddwch yn gwneud y prawf, ar y wefan yma: www.gov.uk/report-covid19-result

Os bydd eich prawf cyflym yn bositif, chewch chi ddim mynd i'r gêm.

Os bydd eich prawf cyflym yn negatif, bydd angen ichi gadw'r neges destun neu'r e-bost fel prawf i'w ddangos wrth fynd i mewn.


## Beth fydd angen ichi ei ddangos i gael mynd i mewn

Bydd angen ichi ddangos eich e-docyn a'ch manylion adnabod i fynd i mewn.

Bydd y rhain yn cael eu gwirio wrth ichi gyrraedd. Efallai hefyd y gofynnir ichi ddangos tystiolaeth o'ch profion negatif neu brawf eich bod wedi cofrestru eich prawf PCR. Cofiwch eu cael yn barod i'w dangos wrth y gât fel y gall y ciw barhau i symud:

### 1 – Y neges destun neu'r e-bost sy'n dweud eich bod wedi cael prawf COVID (PCR) negatif.

Enghraifft o neges:



EE 09:19 83%
NHS
Text Message
Sat 23 Jan, 11:05

NHS COVID-19 Notification:
Dear Your name here
Birth date - Your birth date here
Test date: Your test date here

Your coronavirus test result is negative. It's likely you did not have the virus when the test was done.

Keep following coronavirus advice including:


- regular handwashing
- social distancing
- wearing a face covering where recommended

You only need to self-isolate if:

- you get symptoms of coronavirus (you'll need to book a new test at https://

Text Message

Enghraifft o e-bost:



NHS

Dear Your name here
Birth date – Your birthdate here
Test date: Your test date here
NHS Number: Your NHS number here

Your coronavirus test result is negative. It's likely you did not have the virus when the test was done.

Keep following coronavirus advice including:

- regular handwashing
- social distancing
- wearing a face covering where recommended

You only need to self-isolate if:


- you get symptoms of coronavirus (you'll need to book a new test at https://www.gov.uk/get-coronavirus-test )
- you're going into hospital (self-isolate until the date you go in)
- someone you live with tests positive
- you've been traced as a contact of someone who tested positive

You can return to work if you've not had a high temperature for 48 hours and feel well. Contact your employer first.

For a care home resident, follow the care homes guidance For medical help, contact 111. In an emergency dial 999.

### 2 – Y neges destun neu'r e-bost a gawsoch ar ôl llwytho eich prawf cyflym negatif (LFT) i wefan Llywodraeth y DU.

Enghraifft o neges:



EE 16:10 54%

NHS COVID-19 Notification:
Dear Your name here
Birth date Your birth date here
Test date: Your test date here

Your coronavirus lateral flow test result is negative. It's likely you were not infectious when the test was done.


Keep following coronavirus advice including:

- regular handwashing
- social distancing
- wearing a face covering where recommended

You only need to self-isolate if:

- you get symptoms of coronavirus - you'll need to book a different test at https://www.gov.uk/get-coronavirus-test

Enghraifft o e-bost:



NHS

Dear Your name here
Birth date Your birth date here
Test date: Your test date here
NHS Number: Your NHS Number here

Your coronavirus lateral flow test result is negative. It's likely you were not infectious when the test was done.

Keep following coronavirus advice including:

- regular handwashing
- social distancing
- wearing a face covering where recommended

You only need to self-isolate if:

- you get symptoms of coronavirus – you'll need to book a different test at https://www.gov.uk/get-coronavirus-test
- someone you live with tests positive, or has symptoms
- you've been traced as a contact of someone who tested positive

For medical help, contact 111. In an emergency dial 999.

See https://gov.wales/coronavirus for more advice

**Diogelu Cymru gyda'n Gilydd**

OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG42737 Llywodraeth Cymru